**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

18 Tachwedd 2022

Annwyl Weinidog,

Newid hinsawdd: addasu i effeithiau newid hinsawdd a chyllidebau carbon

Ar ddechrau'r Chweched Senedd, cytunodd y Pwyllgor i wneud gwaith i asesu'r cynnydd tuag at gyflawni cynllun addasu i effeithiau newid hinsawdd Llywodraeth Cymru, sef *Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd* (y Cynllun). Wrth wneud hynny, roeddem yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi ei hadroddiad cyntaf ar gynnydd y Cynllun yn ystod gwanwyn 2022. Cytunwyd y byddai'n synhwyrol aros i'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn amserlennu'r gwaith hwn. Hyd y deallwn, nid yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi eto.

Mae'r Pwyllgor wrthi'n cwblhau ei raglen waith derfynol ar gyfer tymor y gwanwyn 2023. A fyddech cystal â chadarnhau pan gaiff yr adroddiad ei gyhoeddi fel y gallwn gynllunio ein gwaith yn briodol, ac esbonio pam fod yr adroddiad wedi'i ohirio.

Yn ystod y sesiwn graffu gyda'r Gweinidog yn ôl ym mis Hydref 2021, dywedodd eich swyddog wrthym fod gwaith ar y gweill i asesu a fyddai angen diweddaru'r Cynllun i ystyried cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar drydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU. Awgrymodd y byddem ni a/neu'r Senedd yn cael gwybod am benderfyniad maes o law. A fyddech cystal ag egluro a ydych yn bwriadu gwneud newidiadau i'r Cynllun presennol yng ngoleuni cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd, ac os felly, pryd.

Ar fater cysylltiedig, mae'r Pwyllgor yn bwriadu ystyried cyflawni'r gyllideb garbon gyntaf (2016 i 2020), sydd wedi'i llywio gan ddatganiad terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod y gyllideb. Rydym yn deall, er mwyn bodloni gofyniad Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, fod yn rhaid gosod y

datganiad hwn cyn diwedd mis Rhagfyr 2022. A fyddech cystal â chadarnhau y bydd yn bosibl i chi fodloni'r gofyniad hwn.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb i’r llythyr hwn cyn gynted â phosibl, ac erbyn 16 Rhagfyr fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.